
Cylchgrawn Cyfeillon y Ddaear

Ruthin Friends of the Earth Magazine

Autumn/Hydref 2024



Issue/Rhifyn 10

In this Issue

- Achievement Awards
- Three Generations March for Nature
- No Fish
- *Unconditional Love* – poetry by Christine Meirion
- Bionet Wales Nature Day 2024
- The Ruthin Flower and Country Show 2024
- Six Inches of Soil
- Projects and Contacts

Yn y rhifyn hwn

- Cydnabod cyfraniad ac ymroddiad
- Tair cenhedlaeth yn gorymdeithio dros Natur
- Dim pysgod diolch yn fawr
- *Unconditional Love* – barddoniaeth gan Christine Meirion
- Diwrnod Natur Bionet Cymru 2024
- Sioe Flodau a Gwledig Rhuthun 2024
- Chwe modfedd o bridd
- Prosiectau ac enwau cyswllt

Achievement Awards by Christine Meirion

On 6th June 2024, two of Ruthin's Friends of the Earth volunteers were celebrated with achievement awards from Denbighshire Voluntary Services Council. Jean Campbell Leith (on the left in the photo) is the secretary of Friends of the Earth, Ruthin and works tirelessly for other voluntary groups including U3A. Her award was for her contribution to environmental conservation. Anne Lewis's award was for her work as the Team Leader of Ruthin Repair Café, which runs on the first Saturday morning of every month in the DVSC centre. Both are highly regarded by their colleagues for their hard work, dedication and organisational skills. Well done to both of these inspirational women. We applaud you.



Cydnabod cyfraniad ac ymroddiad dwy o wirfoddolwyr gan Christine Meirion

Ar 6 Mehefin 2024, roedd cyfle i ddathlu'r achlysur pan gafodd cyraniadau ac ymroddiad dwy o wirfoddolwyr Cyfeillion y Ddaear Rhuthun eu cydnabod gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Jean Campbell Leith (ar y chwith yn y llun) yw ysgrifennydd Cyfeillion y Ddaear Rhuthun, ac mae hi hefyd yn gweithio'n ddiflino i grwpiau gwirfoddol eraill, gan gynnwys U3A. Y tro hwn, ei chyfraniad i gadwraeth amgylcheddol oedd yn cael ei gydnabod. Roedd hwn hefyd yn gyfle i ddathlu gwaith Anne Lewis fel Arweinydd Tîm y Caffi Trwsio yn Rhuthun, sy'n cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn cyntaf bob mis yng Nghanolfan Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Mae'r ddwy wedi ennyn parch pob un o'u cydweithwyr a'u cyfeillion am eu holl waith caled, eu hymroddiad, ac am eu sgiliau trefnu. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ohonoch, rydych wedi gwneud cymaint i ysbrydoli eraill, gobeithio eich bod yn gallu clywed y bonllefau o gymeradwyaeth.

Tair cenhedlaeth yn gorymdeithio dros Natur gan Brian Peters a Christine Merion

Gorymdeithiodd tair cenhedlaeth o deulu *Peters* ar hyd strydoedd Llundain wrth gymryd rhan yn yn yr ymgyrch *Restore Nature Now* a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 22 Mehefin 2024. Arweiniodd Chris Packham oddeutu 100,000 o bobl mewn gorymdaith o Hyde Park i Parliament Square. Dyma'r dyrfa fwyaf a welwyd erioed i ddod ynghyd i ymgyrchu dros Natur yn y DU.

Gorymdeithiodd Brian Peters (ymgyrchydd diflino o Gyfeillion y Ddaear Rhuthun), ei ferch Hannah a'i ŵyr Evan gyda'i gilydd yn y digwyddiad teuluol a heddychlon hwn a ddaeth ag ymgyrchwyr Hinsawdd a Natur at ei gilydd, gan gynnwys cynrychiolwyr o dros 250 o sefydliadau megis yr *RSPB*, *yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol*, *Ymddiriedolaethau Natur*, *Coed Cadw, Cyfeillion y Ddaear,* ac *Extinction Rebellion*.

Roedd Christine a Steve, dau aelod arall o Gyfeillion y Ddaear Rhuthun yno hefyd. Soniodd y ddau am sut yr oeddent wedi cael eu hysbrydoli o weld y nifer mawr o bobl a sefydliadau sy'n arwain y frwydr dros yr Hinsawdd a Natur.

Hefyd, mae Christine yn aelod o grŵp Bwdhaidd Extinction Rebellion, a chynhaliodd y g grŵp hwn fyfyrdod cyn yr orymdaith, gan dynnu ynghyd ymgyrchwyr hinsawdd o lawer o whahanol draddodiadau Bwdhaidd. Roedd y myfyrdod yn canolbwyntio ar yr angen i gydweithredu mewn undod er mwyn diogelu'r holl rywogaethau ar ein planed. Cariodd Steve a Brian faner *Restore Nature Now* yng ngefn yr orymdaith gan gydgerdded gyda'r band drymiau. Roedd eu baner fawr wedi ei gwneud gan Anouchka a Hannah (o XR Cymru) allan o ddeunyddiau a oedd wedi cael eu hailgylchu, a chafodd y faner lawer o sylw ar y diwrnod gyda llawer o bobl am gael tynnu eu lluniau'n sefyll o'i blaen.

Newydd ddechrau y mae'r ymgyrch hon a fydd yn parhau i gadw ffocws ein llywodraeth newydd ar yr angen i fynd i'r afael â'r argyfyngau Hinsawdd a Natur. Mae'r Bil Hinsawdd a Natur wedi ennyn cefnogaeth gan y gwahanol bleidiau, gyda thros 150 o'r Aelodau Seneddol newydd yn San Steffan eisoes wedi addo hyrwyddo'r Bil wrth iddo fynd ar ei daith drwy Dy'r Cyffredin.

Y sefydliad hinsawdd Zero Hour sy'n arwain y ffordd ar y Bil hwn, ac mae

rhagor o wybodaeth ar gael ar ei wefan: http://www.zerohour.uk
Llawer o ddiolch i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac XR Gogledd Cymru a drefnodd y bws o Fangor.




Buddhist XR meditation before the march





The three generations of the Peters family.



Three Generations March for Nature by Brian Peters and Christine Merion

Three generations of the *Peters* family took to the streets of London on *The Restore Nature Now* march which took place on Saturday 22nd June 2024. An estimated 100,000 people marched from Hyde Park to Parliament Square in London led by Chris Packham. This was the largest mobilisation of people for nature ever seen in the UK.

Brian Peters (a stalwart figure in Friends of the Earth Ruthin), his daughter Hannah and grandson Evan marched together in the peaceful family event which brought together Climate and Nature activists representing over 250 organisations including *RSPB*, *National Trust*, *Wildlife Trusts*, *Woodland Trust*, *Friends of the Earth* and *Extinction Rebellion*.

Christine and Steve, two other members of Ruthin Friends of the Earth, were also there. Each one of them spoke of being inspired by the many people and organisations who are leading the fight for Climate and Nature.

Christine is also a member of Extinction Rebellion Buddhists who held a meditation before the march, bringing together Buddhist climate activists from many Buddhist traditions. The meditation focused on the harmonious co-operation to protect all species on our planet. Steve and Brian carried a *Restore Nature Now* banner at the rear of the procession and marched with the drum band. The large banner, which was made out of recycled materials by Anouchka and Hannah (from XR Cymru), received a lot of attention on the day with many people wanting to stand in front of the banner for photographs.

This is just the start of an ongoing campaign to keep the focus of our new Government on the need to tackle the Climate and Nature emergencies. The Climate and Nature Bill has cross party support with over 150 of the new MP's already pledging to champion the bill as it passes through the Commons.

The climate organisation Zero Hour is leading the way on the CAN Bill and more information is available on their website http://www.zerohour.uk

Many thanks to the North Wales Wildlife Trust and North Wales XR who organised the coach trip from Bangor.

No Fish by Diana Sanders

Many times, when I tell people I'm a vegetarian they ask *do you eat fish?* My answer has always been *No, I don't eat fish because fish is flesh*. I've been a vegetarian for nearly 50 years and the reasons to not eat fish are greater than they ever have been.

Here are the reasons why.

- The global appetite for seafood is greatly outpacing the ability of fish to reproduce. Many of the world's fish stocks are being pushed to the point of collapse.
- Popular species like tuna are being dangerously overfished and many stocks are at risk of disappearing altogether if sustainable management practices aren't adopted.
- A major driver of overfishing is the lack of national and international oversight of the world's waters. It is estimated that 35 million metric tons of fish go unreported each year by fishing vessels. (U.N. Food and Agriculture Organisation) That's a problem because it prevents sustainable fish quotas from being maintained and derails conservation efforts.
- Accidental capture (bycatch) or entanglement in fishing gear is one of the most significant threats globally to the conservation and welfare of marine species, including cetaceans (whales, dolphins and porpoises), seabirds, seals, sharks, skates and rays. (UK Gov) The UN estimates that between 20-25% of all sea creatures that are caught are victims of bycatch and many of these creatures die. Up to 300,000 small whales, dolphins, and porpoises get entangled and killed in this manner each year. The single biggest threat to sea turtles, according to the World Wildlife Fund is bycatch.
- Bottom trawling is a fishing method that drags large weighted nets across the seafloor. Everything that gets in the way gets swept into the net. This creates not only a large bycatch impact but has many other detrimental impacts such as a) having an impact on the diversity of the ocean. b) Deep sea coral forests, thought to be some of the most biodiverse ecosystems with high degree of endemism (species found only there), can take centuries to form. But when a trawler runs over them again and again to catch fish, they're destroyed, and so is the whole

community that had formed around them. c) Bottom trawling disturbs marine sediments which are a massive carbon sink. According to a study published in Nature science journal in 2021 this type of fishing released as much carbon dioxide as the entire aviation industry.

- The UK's fish stocks are in a perilous state, with some of its most popular catch facing population collapse, (according to campaign group Oceana). Overfishing is the main culprit to the poor state of UK fish stocks, the group said, with little over a third of audited stocks fished sustainably. Of the ten most important fish for the British fleet, North Sea cod, Southern North Sea crab and Eastern English Channel scallops are all overfished and have populations at a "critical" level.
- Human rights charities have documented horrific abuse of workers within the fishing industry. Some workers are forced to work long hours while being deprived of food and medical attention. Some have even been killed and their bodies thrown overboard if they protested against their working conditions. These are extreme cases in what has been called an *outlaw ocean* where crimes can be committed with impunity. Our purchases of fish can mean that we are unknowingly supporting these horrific practices on the open ocean. (Professor Chris Armstrong).



Dim Pysgod gan Diana Sanders

Yn aml iawn, pan fyddaf yn dweud wrth bobl fy mod yn llysieuwraig, maen nhw'n gofyn '*ydych chi'n byta pysgod*?' A dyma f'ateb innau bob amser '*Nac ydw, wrth gwrs dw i ddim yn byta pysgod, cnawd ydy o.'* Dw i wedi bod yn llysieuwraig am bron i 50 mlynedd, ac mae'r rhesymau pam nad wy'n bwyta pysgod wedi cryfhau dros amser, a dyma restr o'r rhesymau hynny:

- Mae pobl ar draws y byd yn bwyta cymaint o bysgod fel nad yw'n bosibl i'r pysgod eu hunain atgynhyrchu'n ddigon cyflym i gadw i fyny â'r galw. Mae llawer o gyflenwadau pysgod y byd ar fin cael eu difa.
- Mae rhywogaethau poblogaidd fel tiwna yn cael eu gorbysgota hyd at lefel peryglus, ac mae llawer o gyflenwadau mewn perygl o ddiflannu'n gyfan gwbl os na fydd arferion rheoli cynaliadwy yn cael eu gweithredu.
- Un o'r prif ffactorau sy'n achosi gorbysgota yw diffyg goruchwyliaeth o ddyfroedd y byd, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Amcangyfrifir fod 35 miliwn o dunelli metrig o bysgod heb eu cofnodi gan longau pysgota bob blwyddyn. (Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig) Mae hynny'n broblem achos mae'n ei gwneud yn amhosibl cynnal cwotâu pysgod cynaliadwy ac mae'n tanseilio ymdrechion cadwraeth.
- Mae dal bywyd môr yn ddamweiniol (sef sgil-ddalfa neu *bycatch*), neu rywogaethau'n mynd yn gaeth mewn rhwydi pysgota, yn un o'r bygythiadau mwyaf sylweddol yn fyd-eang i'r ymdrechion i ddiogelu a sicrhau lles rhywogaethau'r môr, gan gynnwys teulu'r morfil (morfilod, dolffiniaid a llamidyddion (*porpoises*)), adar y môr, morloi, morgwn/siarcod, a morgathod (*skates* a *rays*). (Llywodraeth y DU) Mae'r Cenhedloedd Unedig yn amcangyfrif fod rhwng 20-25% o holl greaduriaid y môr sy'n cael eu dal yn *bycatch* mewn gwirionedd, ac mae llawer o'r creaduriaid hyn yn marw. Bob blwyddyn, mae hyd at 300,000 o forfilod bach, dolffiniaid a llamidyddion yn mynd yn gaeth fel hyn, ac yn cael eu lladd o ganlyniad, ac yn ôl y *World Wildlife Fund*, cael eu hunain yn *bycatch* yw'r bygythiad mwyaf i grwbanod môr.
- Wrth dynnu rhwydi ar hyd y llawr ar waelod y môr, mae popeth sydd yn eu ffordd yn cael eu sgubo i mewn iddynt ac yn mynd yn gaeth.


Mae hyn yn golygu bod y *bycatch* yn enfawr a'i fod yn cael llawer o effeithau niweidiol eraill hefyd, megis: a) mae'r cael effaith andwyol ar amrywiaeth bywyd y môr; b) mae fforestydd coral yn nyfnderoedd y môr, a chredir bod y fforestydd hyn, sydd yn gallu cymryd canrifoedd i ffurfio, yn gartref i rai o'r ecosystemau mwyaf bioamrywiol gyda lefel uchel o *endemism* (rhywogaethau nad ydynt ar gael mewn unrhyw le arall). Ond pan fydd llong pysgota yn rhedeg rhwydi trwm drostynt dro ar ôl tro er mwyn dal pysgod, maent yn cael eu dinistrio ochr yn ochr â'r gymuned gyfan o greaduriaid y maent yn gartref iddynt; c) mae tynnu rhwydi ar hyd gwaelod y môr yn corddi'r gwaddodion morol sydd yn gweithredu fel dalfa garbon anferth. Yn ôl astudiaeth a gyhoeddwyd yng nghylchgrawn gwyddonol *Nature* yn 2021, mae'r math hwn o bysgota yn rhyddhau'r un maint o garbon deuocsid â'r holl ddiwydiant hedfan.

◆ Mae cyflenwadau pysgod y DU mewn cyflwr hynod beryglus, gyda rhai o'r pysgod mwyaf poblogaidd yn wynebu'r ffaith bod eu poblogaeth ar fin dod i ben (yn ôl y grŵp ymgyrchu Oceana). Yn ôl y grŵp, gormod o bysgota yw'r prif reswm am gyflwr trychinebus cyflenwadau pysgod y DU, gyda dim ond ychydig dros draean o'r cyflenwadau sy'n cael eu harchwilio yn cael eu pysgota mewn modd cynaliadwy. O'r deg pysgodyn pwysicaf ar gyfer llongau Prydain, mae penfras Môr y Gogledd, crancod De Môr y Gogledd, a chregyn bylchog y Sianel ddwyreiniol i gyd yn cael eu gorbysgota, ac mae eu poblogaethau wedi disgyn i lefelau argyfyngus.

◆ Mae elusennau hawliau dynol wedi cofnodi achosion erchyll o gam-drin gweithwyr yn y diwydiant pysgota. Mae rhai gweithwyr yn cael eu gorfodi i weithio oriau hir heb ddigon o fwyd a heb ofal meddygol. Mae rhai hyd yn oed wedi cael eu lladd gyda'u cyrff yn cael eu taflu i mewn i'r môr os ydynt wedi protestio yn erbyn eu hamodau gweithio. Mae'r rhain yn achosion eithafol sy'n digwydd allan ar y môr lle mae pobl yn gallu gweithredu heb cymryd sylw o'r gyfraith, a lle maent yn teimlo ei bod yn ddiogel iddynt droseddu. Drwy brynu pysgod, gallem fod yn cefnogi'r arferion ofnadwy hyn sy'n gysylltiedig â'r môr. (Yr Athro Chris Armstrong).

Unconditional Love by Christine Meirion

Lingering on a summer's day,
adrift in a punt with my lover.
Keeping a watchful
eye on Oxford's wildlife—
birds and fish and mammals.
Letting go of worldly cares and feeling
unconditional love for mother
Earth.



Diwrnod Natur Bionet Cymru 2024 gan Marlene a Brian Peters

Cynhaliwyd Diwrnod Natur blynyddol Bionet yng ngerddi tŷ hanesyddol Nantclwyd y Dre, Rhuthun ddydd Sul 21 Gorffennaf. Mae Bionet yn rhwydwaith gwybodaeth amgylcheddol ar gyfer rhanbarth y Gogledd-ddwyrain – Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy a Wrecsam. Tîm Bioamrywiaeth Cyngor Sir Ddinbych oedd yn gyfrifol am redeg y digwyddiad hwn i hyrwyddo sefydliadau a phrosiectau lleol sy'n gweithio i gadw, diogelu, a gwella bioamrywiaeth ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory.

Roedd y digwyddiad yn rhad ac am ddim ac yn gyfle i'r teulu i gyd gael hwyl. Daeth dros 200 o ymwelwyr o gymunedau lleol yn y Gogledd, ac o Gaer, a'r Wirral.

Roedd gan y canlynol i gyd stondinau yn y digwyddiad: Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Ymgyrch Achub y Gylfinir, Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Clocaenog, Cadwraeth Glöynnod Byw Gogledd Cymru, Natur ar gyfer Iechyd, Tir Gwyllt/Wild Ground (Wrecsam), Prifysgol Caer (y tîm Bio), a Meithrinfa Coed/Blodau Gwyllt Llanelwy (Cyngor Sir Ddinbych). Roedd stondinau hefyd gan Nantclwyd y Dre a Chyfeillion y Ddaear Rhuthun

Roedd cyfle i oedolion a phlant fwynhau llawer o weithgareddau a gweithdai, gan gynnwys dweud stori, paentio wynebau, gwehyddu â helyg, a phlannu blodau gwyllt. Cafodd gwirfoddolwyr Cyfeillion y Ddaear hwyl yn gwneud modelau o was y neidr a glöynnod byw allan o helyg!

Roedd stondin Cyfeillion y Ddaear Rhuthun yn brysur, ac roedden ni'n mwynhau gweithio gyda'r plant (a rhai oedolion) i wneud addurniadau natur a'r tywydd ar gyfer ein coeden Natur. Mi wnaethon ni werthu nifer o'n crysau Cyfeillion y Ddaear, a chawsom roddion hael gan ymwelwyr. Hefyd mi wnaeth rhai ymwelwyr roi eu manylion cyswllt er mwyn aros mewn cysylltiad â ni. Roedd yn gyfle i'n gwirfoddolwyr rwydweithio gyda sefydliadau eraill ac ymwelwyr, a'r gobaith yw y bydd hynny'n arwain at brosiectau ar y cyd yn y dyfodol i helpu i ddiogelu natur a'n hamgylchedd. Gofynnodd athro lleol am help gyda phrosiect ysgol i greu *wormery composter* i'r plant ofalu amdano, ac rydym yn edrych ymlaen at gymryd rhan yn y prosiect hwn yn y dyfodol agos.

Roedd gan stondin meithrinfa Greenacre Llanelwy, sy'n cael ei rhedeg gan Gyngor Sir Ddinbych, amrywiaeth eang o flodau gwyllt, ac roedd llawer o

ymwelwyr yn cael rhoi blodau mewn potiau a mynd â nhw adref i'w plannu yn yr ardd.
Diolch i dimau Nantclwyd y Dre/Bionet am gynnal y digwyddiad a gosod y stondinau. Hefyd, llawer o ddiolch i'r wyth gwirfoddolwr o Gyfeillion y Ddaear a fu'n helpu ar y stondin drwy gydol y diwrnod.

Mae rhagor o wybodaeth am Bionet Cymru ar gael yn www.bionetwales.com a
www.denbighshire.gov.uk/biodiversity



Bionet Wales Nature Day 2024 by Marlene and Brian Peters

The annual Bionet Nature Day was held in the walled gardens of the historic house Nantclwyd Y Dre, Ruthin on Sunday the 21st July. Bionet is an environmental information network covering the North East Wales region from Denbighshire, Flintshire, Conwy and Wrexham. The Biodiversity Team from Denbighshire County Council ran the event to

promote organisations and local projects that are working to conserve, protect and enhance our biodiversity for current and future generations.

It was a free of charge, fun, family day which attracted over 200 visitors from the local communities around North Wales, Chester and the Wirral.

North Wales Wildlife Trust, Saving the Curlews, Clocaenog Red Squirrel Trust, North Wales Butterfly Conservation, Nature for Health, Wild Ground (Wrexham), University of Chester (Bio team), St Asaph Tree/Wildflower Nursery (DCC). Nantclwyd Y Dre and Friends of the Earth Ruthin all had stalls at the event.

The many activities and workshops which were enjoyed by adults and children alike included storytelling, face-painting, willow weaving and wildflower planting. The Friends of the Earth volunteers had some fun making willow dragonflies and butterflies!

The Ruthin Friends of the Earth stall was busy and we enjoyed working with the children (and some adults!) to produce nature and weather mobiles for our Nature Tree. We sold several of our FOE T shirts and received generous donations. We also had some visitors who signed up to stay in contact with FOE. Our volunteers were able to network with other organisations and visitors which will hopefully lead to future joint projects to help protect nature and our environment. A local teacher requested help with a school project to introduce a wormery composter for the children to manage and this will be progressed.

The St Asaph Greenacre nursery stall, which is run by Denbighshire County Council, had a wide range of wildflowers and many visitors were able to freely partake of the opportunity to pot these up for taking home to replant in their gardens.

Thanks to the Nantclwyd Y Dre/Bionet teams for hosting the event and setting up the stalls. Also, a big thank you to the eight FOE volunteers who helped throughout the day on the stall.

Further information about Bionet Wales can be found on www.bionetwales.com and www.denbighshire.gov.uk/biodiversity

The Ruthin Flower and Country Show 2024 by Brian Peters

Ruthin Friends of the Earth and Ruthin Repair Cafe were present with a stall at this annual event which was held at the Farmers Market on Saturday 17th August. The show provided a great opportunity to network with the local Ruthin community and surrounding areas. The show was another success story with attendances up on last year and the main car park was full by lunchtime.

The stall had steady stream of visitors from North-East Wales and beyond who showed a lot of interest in the activities of our organisation especially the Repair Cafe. The volunteers had many interesting discussions relating to local environmental issues.

We had visits from the newly elected MP, Becky Gittins, and Ruthin's mayor Jabez Redfern Oakes. The mayor requested that we submit an environmental project that would benefit the community with possible funding available e.g. The River Clwyd Monitoring project.

We had nine visitors who signed up to our mailing list and some expressed an interest in volunteering. The Ruthin Repair Café received a lot of focus with many locals saying they had attended or knew about the Café and some who wanted to know more and would definitely pay the cafe a visit.

A big thank you to our team of volunteers (Jean, Janet, Peter, Marlene and Brian) who supported the stall at short notice and were flexible with their time.



Left to right: Friends of the Earth volunteer Janet Steel and MP Becky Gittins

Sioe Flodau a Gwledig Rhuthun 2024 gan Brian Peters

Roedd Cyfeillion y Ddaear Rhuthun a Chaffi Trwsio Rhuthun yn bresennol gyda'u stondin yn y digwyddiad blynyddol hwn a gynhaliwyd ym Marchnad y Ffermwyr ddydd Sadwrn 17 Awst. Roedd y sioe yn gyfle gwych i rwydweithio gyda chymuned Rhuthun a'r fro. Unwaith eto eleni roedd y sioe yn llwyddiant, gyda nifer yr ymwelwyr i fyny ers y llynedd, ac roedd y prif faes parcio yn llawn erbyn amser cinio.

Roedd llif dibaid o bobl, o'r Gogledd-ddwyrain a'r tu hwnt, wedi ymweld â'r stondin, gan ddangos llawer o ddiddordeb yng ngweithgareddau ein grŵp, yn enwedig y Caffi Trwsio. Cafodd y gwirfoddolwyr lawer o drafodaethau diddorol ynghylch materion amgylcheddol lleol.

Cawsom ymweliadau gan Becky Gittins, sydd newydd ei hethol yn Aelod Seneddol yn San Steffan, a maer Rhuthun Jabez Redfern Oakes. Gofynnodd y maer inni gyflwyno prosiect amgylcheddol a fyddai o fudd i'r gymuned, gan ei bod yn bosibl y gallai cyllid fod ar gael ar ei gyfer, ee prosiect monitro Afon Clwyd.

Ychwanegodd naw o'r ymwelwyr eu henwau at ein rhestr e-byst, a mynegodd rhai ohonynt eu diddordeb mewn gwirfoddoli. Cafodd Caffi Trwsio Rhuthun lot o sylw, gyda llawer o bobl leol yn dweud eu bod wedi bod yno neu wedi clywed amdano. Roedd rhai'n awyddus i wybod mwy gan ddweud y byddent yn bendant yn galw draw yn y caffi.

Diolch o galon i'n tîm o wirfoddolwyr (Jean, Janet, Peter, Marlene a Brian) a ddaeth draw ar fyr rubydd i helpu gyda'r stondin, ac a oedd yn hyblyg wrth gynnig eu hamser.


Chwe modfedd o bridd gan Nick Ward a Richard Barrie

Yn ystod yr 'Wythnos Werdd Fawr' ym mis Mehefin eleni, cafodd digwyddiad gyda'r nos ei drefnu a'i ariannu gan Gyfeillion y Ddaear Rhuthun i ddangos ffilm ddogfen newydd a chyffrous. Mae'r ffilm yn adrodd stori ysbrydoledig tri ffarmwr ifanc o Brydain sydd wedi symud i ffwrdd oddi wrth y system fwyd ddiwydiannol drwy drawsnewid eu dulliau cynhyrchu – gan adfer y pridd, adfer natur, dod â budd i'n hiechyd ni, a darparu ar gyfer cymunedau lleol. Mae'r ffilm yn dilyn y tri – ffarmwr defaid a chnydau âr o Swydd Lincoln, yr unfed genhedlaeth ar ddeg yn ei deulu i ffermio; tyfwr llysiau ar raddfa fach o Swydd Caergrawnt; a ffarmwr yng Ngernyw sy'n magu gwartheg cig eidion sy'n cael eu bwydo drwy bori tir glas – gan ddangos taith y tri wrth iddynt fynd ati i sefydlu ffermydd lle mae'r amgylchedd yn cael ei adfer.

Rydym wedi clywed am bryderon fod dulliau ffarmio dwys yn difrodi'r pridd, gan ei adael yn fwy agored i niwed gan dywydd eithafol; ond ar ôl dwy neu dair blynedd o waith trawsnewid (sef cyfnod pan fydd lefel y cynnyrch yn lleihau ac mae'n debygol y bydd angen cymorth ariannol), rydym yn deall bod y tir yn gallu adfer a chynhyrchu ar lefelau sy'n ymarferol yn fasnachol. Roedd yn rhaid canmol y ffarmer cnydau am adfer y pridd ac wedyn mwynhau lefel fwy cynhyrchiol ohono na lefelau ffermydd sy'n defnyddio dulliau dwys.

Clywsom hefyd fod pridd yn y DU yn storio cymaint o garbon fel ei fod yn storio carbon sy'n cyfateb i 80 o flynyddoedd o allyriadau carbon tanwyddau ffosil y wlad hon. Drwy reoli ein priddoedd yn y ffordd iawn, gallwn gynyddu'r storfa garbon

hon, ond gall rheoli pridd yn y ffordd anghywir gael effaith i'r gwrthwyneb, drwy fod y pridd yn rhyddhau carbon.
Daeth tua 50 o bobl ynghyd i fwynhau gwylio'r ffilm hon a sbardunodd trafodaeth frwd.
Talwyd sylw i'r noson ffilm yn Nhaith Werdd/Green Tour Climate Cymru, lle mae'r tîm yn ymweld ag amrywiaeth o brosiectau a mentrau cymunedol ar draws Cymru. Manteisiwyd ar y cyfle i roi gwybod i'r gynulleidfa am y gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan Climate Cymru, mudiad gweithgar o 370 o sefydliadau amrywiol o wahanol rannau o'n gymdeithas, a miloedd o gefnogwyr o bob rhan o'r wlad. Mae'r holl bartneriaid yn rhannu'r awydd i weld camau brys a theg yn cael eu cymryd i roi sylw i'r argyfyngau hinsawdd a natur. https://climate.cymru/



Six Inches of Soil by Nick Ward and Richard Barrie

During this year's 'Green Big Green Week', in June, Ruthin FoE organized and funded an evening event to show an exciting new documentary feature film. This presents the inspiring story of three

young British farmers moving away from the industrialised food system and transforming the way they produce food - to heal the soil, restore nature, benefit our health and provide for local communities. The film follows the three - a Lincolnshire 11th generation arable and sheep farmer; a Cambridgeshire small-scale vegetable grower; and a farmer rearing pasture-fed beef cattle in Cornwall - on their journey to establish regenerative farms.

We heard about the concerns that intensive farming depletes the soil and leaves it more vulnerable to extremes of weather but that after two or three years of transition (when yields may drop and financial support is likely needed) it can recover and produce commercially viable yields. Impressively, the arable farmer was able to produce greater yields than those achieved by farms using intensive methods.

We also heard that carbon locked up in the soil in the UK holds 80 years' worth of this country's carbon emissions from fossil fuels. Managing our soils in the right way can increase this carbon storage but inappropriate management can have the opposite effect, where soil becomes an emitter of carbon.

Around 50 people enjoyed watching the film, which stimulated an enthusiastic discussion session.

This film night was featured in Climate Cymru's annual 'Green Tour', where the team visit a range of community projects and initiatives around Wales. The opportunity was taken to inform the audience about the great work being done by Climate Cymru, an active movement made up of 370 diverse organisations from across Welsh society and thousands of supporters from across Wales. All the partners share a desire for urgent, fair action to address the climate and nature emergencies. https://climate.cymru/

Projects and Contacts

Group Secretary	Jean Leith
Litter Picks	Steven Hoyle
FoE Chair	Richard Barrie
Repair Café	Anne Lewis
Climate Emergency	Mair Davies
Resilient Communities	Graham Steel/ Christine Meirion
Newsletter	Diana Sanders
Media	
Translation	Sian Gwyn-Ifan
Denbighshire Environmental Alliance	Graham Steel

Groups FoE Ruthin work alongside

Y Ty Gwyrdd	Marguerite Lovegrove
Resource Young Volunteers	Janine Cusworth.

Prosiectau ac Enwau cyswllt

Ysgrifennydd y Grwp	Jean Leith
Casglu Sbwriel	Steven Hoyle
Rhuthun Di-blastig	Richard Barrie
Cadeirydd Cyfeillion y Ddaear	Richard Barrie
Caffi Trwsio	Anne Lewis
Argyfwng Hinsawdd	Mair Davies
Cymunedau Cadarn	Graham Steel/ Christine Meirion
Cylchlythyr	Diana Sanders
Cyfieithu	Sian Gwyn-Ifan

Grwpiau sy'n gweithio ochr yn ochr a Chyfeillion y Ddaear

Y Ty Gwyrdd Marguerite Lovegrove
Resource Young Volunteers Janine Cusworth

